

Adroddiad Babanod Bliss 2008

Gofal ôl-eni yng Nghymru

Bliss
for babies born too soon,
too small, too sick

Cefndir

O'r 33,000 o fabanod a enir yng Nghymru pob blwyddyn, mae tua 3,800 ohonynt yn cael eu derbyn i'r 13 uned ôl-eni yng Nghymru. Wrth i'r raddfa enedigaeth barhau i godi yng Nghymru, bydd y nifer o fabanod a fydd angen y gofal hwn hefyd yn cynyddu.¹ Yn 2007, daeth 50 teulu yng Nghymru at Bliss am gefnogaeth. Mae hyn bron bedair gwaith y nifer a gysylltodd â ni'r flwyddyn cynt.



Adolygiad o ofal ôl-eni yng Nghymru

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru ar ganol cyfnod o newid ac adolygiad, ac mae gofal ôl-eni yn rhan o hyn. Yn 2005, cyhoeddodd Comisiwn Iechyd Cymru (Health Commission Wales – HCW) ymgynghoriad ar ofal ôl-eni a bu Bliss yn rhan o'r grwp gwaith mewn rôl ymgynghorol. Cynhyrchodd yr adolygiad nifer o argymhellion pwysig ar gyfer gwella gofal a mynediad i wasanaethau ôl-eni yng Nghymru, gan gynnwys creu dwy rwydwaith ôl-eni a fyddai'n cael eu rheoli'n glinigol.

Yn anffodus, ni chafodd yr adolygiad byth ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ac felly ni chafodd yr argymhellion eu hystyried. Amcangyfrifodd yr adolygiad y byddai'n costio £10.4 miliwn er mwyn rhoi'r argymhellion ar waith. Mae'n bosib y bu'r elfen hon yn un ffactor

dros yr oedi sydd wedi digwydd. Nododd yr adolygiad y problemau sy'n bodoli mewn gofal ôl-eni yng Nghymru gan awgrymu, a atebion synhwyrol. Fodd bynnag, mae doctoriaid a nyrsys yn parhau'n rhwystredig bod yr adolygiad a'r broses o osod yr argymhellion ar waith wedi ei ohirio.

Yn gynharach eleni, cafodd yr adolygiad ei atgyfodi a'i gylchredeg i glinigwyr a rhan-ddeiliaid eraill ar gyfer ymgynghoriad a sylwadau. Ar y cyd â'r diddordeb newydd hwn yn yr ymgynghoriad, cafodd set newydd o safonau ar gyfer gofal ôl-eni ei lunio gan Brosiect Gwasanaethau Arbenigol Plant a Phobl Ifanc (Children and Young People's Specialised Services Project – CYPSSP). Mae'r safonau hyn yn rhai trylwyr ac uchelgeisiol o ran eu rhychwant ac yn darparu sail ragorol ar gyfer gwella gofal ôl-eni ar draws Cymru. Maent yn cefnogi ac yn adleisio safonau staffio Cymdeithas Meddygaeth Perinatal Prydain (British Association of Perinatal Medicine - BAPM), gan gynnwys unedau yn darparu lefelau gofal dwys o un nyrs ar gyfer un plentyn. Awgrymir y dylid monitro ac archwilio safonau CYPSSP yn flynyddol, symudiad a fyddai'n gwneud Cymru yn esiampl ar gyfer gweddill y DU.

Er bod y datblygiadau cadarnhaol hyn yn awgrymu y gellid gwneud gwelliannau, nid oes cynnydd gweledol wedi digwydd. Mae trafndiaeth ôl-eni yn parhau'n annigonol, mae unedau ar draws Cymru'n parhau yn brin o staff a does dim rheolaeth gydlynus o ran data. Fel y cydnabu'r safonau, mae'r modd y cyflwynir gwasanaethau ar hyn o bryd yn "anghynladwy". Ac mae "diffyg sylweddol" o nyrsys ôl-eni hyfforddedig. Mae'r data rydym wedi ei dderbyn o'r unedau eleni yn tanlinellu'r ffaith hon.

Un mater o bwys ar gyfer gwasanaethau ôl-eni yng Nghymru yw pa mor aml y mae'n rhaid anfon babanod dros y ffin ar gyfer gofal mewn unedau ôl-eni yn Lloegr. Yn amlwg mae hyn yn anodd i deuluoedd gan ei bod yn bosib y bydd rhaid iddynt deithio'n bell er mwyn ymweld â'u plentyn. Mae hefyd yn anodd i ysbytai i roi cyfrif am adnoddau ariannol ac i gomisiynu gwasanaethau. Mae'r anhawster hwn yn debyg o gynyddu

wedi cyflwyno Taliadau ar sail Canlyniadau (Payment by Results – PBR)² yng ngofal ôl-eni yn Lloegr a ddisgwylir yn 2011, a'r newidiadau cyfredol mewn iechyd gofal yng Nghymru.

Mae gwasanaethau arbenigol yng Nghymru hefyd yng nghanol cyfnod o newid. Mae peth ansicrwydd am ddyfodol HCW, y corff sy'n comisiynu gofal "cost-uchel a defnydd-isel" yng Nghymru.³ Mae'n hanfodol bwysig bod y gwaith polisi presennol a'r rhyngwladol am wella gwasanaethau ôl-eni yn cael eu rhoi ar waith, ac nad ydynt yn cael eu colli yn yr ad-drefnu gwasanaethau cyfredol.

Arolwg o unedau ôl-eni yng Nghymru



Yng Ngwanwyn 2008, anfonodd Bliss gais Rhyddid Gwybodaeth i bob uned ôl-eni yn y DU. Mae'r data a ddychwelwyd atom yn darparu darlun trylwyr o'r gofal a ddarperir ar gyfer babanod sâl a chynamserol. Yng Nghymru, ymatebodd pob un o'r 13 uned i'n harolwg.


Staffio

Dywedodd ysbytai wrthym fod 4 o ymgynghorwyr newydd wedi'u cyflogi mewn unedau ôl-eni yn 2007 o'i gymharu â 2006. Dywedwyd wrthym fod cyfanswm o 382 o nyrsys ôl-eni wedi'u cyflogi ar draws Cymru yn 2007. Mae'r ffigwr hwn yn saith yn fwy na 2006 ac yn gyfwerth â chynnydd o 2%.

Wrth edrych ar faint o ofal yr oedd babanod ei angen yn 2007, gallwn amcangyfrif, gan ddefnyddio safonau isafswm nyrsio BAPM, faint o nyrsys sydd eu hangen i gyd ar draws Cymru er mwyn darparu'r gofal hwnnw. Er mwyn cynnal baich gwaith sy'n bosib ei reoli ac i ddelio gydag ymchwydd sydyn mewn gofyn am y gwasanaeth, mae arbenigwyr yn argymhell y dylai unedau ôl-eni anelu i weithio gyda 70 y cant o ddeiliadaeth ynddynt. Er mwyn cyflawni hyn, ein hamcangyfrif ni yw y bydd Cymru angen cyfanswm o tua 500 o staff nyrsio ôl-eni.

Deiliadaeth

Mae'n amhosib cynllunio pryd y caiff babanod sydd angen gofal brys eu geni, ac felly mae arbenigwyr yn argymhell bod unedau'n gweithredu ar ddeiliadaeth o 70 y cant ar gyfartaledd. Mae hyn yn caniatáu iddynt ddelio gydag ymchwydd sydyn o weithgaredd sy'n digwydd a sefydlu baich gwaith sy'n bosib i'w gynnal. Mae'r rhan fwyaf o unedau ôl-eni yng Nghymru yn gweithredu uwchlaw'r lefel hwn. Rhwng Ebrill 1 a Medi 1 2007, roedd gan 55 y cant ohonynt ddeiliadaeth oedd dros 70 y cant. Ar gyfartaledd, mae unedau yng Nghymru mymryn yn llai prysur nag unedau mewn manau eraill o'r DU. Fodd bynnag, yn 2006, dywedodd 25 y cant o unedau yng Nghymru eu bod nhw wedi mynd y tu hwnt i gynhwysedd o 100 y cant ar ryw bwynt neu'i gilydd. Yn 2007, cynyddodd y ffigwr hwn i 38 y cant. Mae hyn yn dystiolaeth bellach bod unedau o dan bwysau cynyddol. Mae'r siart isod yn dangos faint o unedau aeth y tu hwnt i ddeiliadaeth o 70 y cant pob mis.



Dim mwy o dderbyniadau newydd

Mae'r prinder nyrsys ôl-eni ynghyd â'r lefelau uchel o weithgaredd yn golygu bod llawer o unedau dan bwysau mawr yng Nghymru. Os yw uned yn llawn, bydd staff wastad yn darparu gofal brys ar gyfer unrhyw fabi newydd sydd ei angen. Fodd bynnag, golyga hyn efallai y bydd angen iddyn nhw gael hyd i got sydd wedi'i staffio mewn uned arall. Rhwng Ebrill 1 a Medi 1 2007, dywedodd 73y cant o'r unedau bod rhaid iddyn nhw gau ar ryw bwynt neu'i gilydd. Fe wnaed hyn am gyfanswm o bymtheg diwrnod yn ystod y pum mis ychydig mwy na phum wythnos mewn blwyddyn gyfan).

Trosglwyddiadau

Nid oes gan Gymru wasanaeth trafndiaeth ôl-eni benodol a dibynnir dar drefniadau ad hoc. Golyga hyn bod clinigwyr neu nyrsys yn aml yn gorfod treulio amser maith ar y ffôn yn holi unedau eraill i weld os oes ganddynt got sydd wedi'i staffio'n briodol. Pan fo'r uned yn llawn yn barod, mae hyn yn ddefnydd o amser gwerthfawr a hynny ar adeg pan fod angen gofal ar fabanod bregus. Pan fo trafndiaeth yn cael ei drefnu, efallai bod rhaid i staff adael eu huned cartref er mwyn mynd gyda'r baban i'r uned newydd. Mae hyn yn gosod yr uned wreiddiol dan fwy o bwysau ar adeg sydd eisoes yn brys. Dyweodd unedau wrthym fod rhaid trosglwyddo 20 o fabanod rhwng Ebrill 1 a Medi 1 2007 oherwydd diffyg cynhwysedd. Mae hyn yn gyfystyr â thua 50 o fabanod pob blwyddyn.

Pan fod trosglwyddiad yn digwydd, efallai na fydd hynny i uned sy'n agos at gartref y rheini. Yn wir, dengys ein data ni bod 27 y cant o'r trosglwyddiadau wedi digwydd y tu hwnt i'w hardal leol neu dros y ffin yn Lloegr. Yn aml diystyrir effaith y trosglwyddiadau hyn ar deuluoedd a'r modd y maent yn dwysáu'r trafferthion emosiynol, ariannol ac ymarferol sy'n dod i ran rheini plant sy'n cael eu geni'n sal neu'n gynamserol. Ar ben hynny, pan fo babanod yn cael eu trosglwyddo dros y ffin i Loegr, y GIC yn Lloegr sy'n darparu'r gofal ac fe all y trefniadau comisiynu ar gyfer y gofal hwn fynd yn gymhleth. Gall hefyd arwain at amcangyfrif rhy isel o ran faint o ofal sydd ei angen ar fabanod Cymreig.

Mae pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol a chefnogaeth ar gyfer teuluoedd yn elfen amlwg yn ymatebion teuluoedd Cymreig i'n harolwg ar-lein ar gyfer rheini. Dim ond canmoliaeth hael oedd gan y rhan fwyaf o rieni wrth son am yr ymgynghorwyr, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill oedd yn gofalu am eu babanod yn ystod cyfnod llawn gofid a straen emosiynol. Fodd bynnag, roedd gan sawl un ohonynt sylwadau am yr ochr mwy "meddal" i'r gofal, megis bwydo o'r fron:

'[Roedd y gofal yn] ardderchog, ac fe roedden ni'n cael gwybodaeth gyson am ofal ein plentyn, yr unig beth oedd yn rhwystredig imi oedd y diffyg cefnogaeth i fwydo o'r fron unwaith oedd mhlentyn oddi ar y tiwb bwydo. Roeddwn i'n teimlo bod y nyrsys yn fy ngwthio i roi potel er mwyn gwneud eu bywydau nhw'n haws. Ond mi wnes i ddal ati a gyda help y cwnselydd bwydo o'r fron ar y ward ôl-eni, mi wnes i adael yr ysbyty yn bwydo o'r fron.'

Mae Bliss yn aml yn clywed gan rieni bod y gofal a dderbynir gan eu babanod o safon uchel iawn, ond nid oes gan staff nyrsio a meddygol yr amser i ateb eu cwestiynau'n llawn. Mae hyn yn deillio o'r prinder nyrsys; ac mae'n effeithio nid yn unig ar y gofal y mae babanod yn eu derbyn ond hefyd ar y cyfathrebu y mae'r rheini yn ei dderbyn. Ac fe all hyn wedyn effeithio ar ba mor gynwysedig yn y broses o ofalu am eu plentyn y teimla'r rhieni.

Casgliad

Mae gan Gymru'r potensial i ddatblygu gwasanaeth ôl-eni effeithiol sy'n darparu gwasanaeth o safon uchel i fabanod bregus a'u teuluoedd. Mae datblygaidau calonogol ar y gweill gyda diddordeb newydd yn adolygiad yr HCW a'r safonau sydd wedi eu llunio gan CYPSSP yw'r rhai mwyaf trylwyr ac uchelgeisiol yn y DU.

Fodd bynnag, dylid rhybuddio nad oes un o'r rhain eto wedi'u rhoi ar waith ac mae gofal ôl-eni yng Nghymru yn parhau ar ei hól hi o'i gymharu â gwledydd eraill yn y DU. Heb system drafndiaeth benodol

a dim strwythur rhwydwaith yn ei le, mae gofyn gweld newid brys yn system ôl-eni yng Nghymru. Ar ben hynny, mae yna brinder staff arwyddocâol ac y mae'r rhan fwyaf o unedau'n gweithredu uwchlaw eu lefelau cynhwysedd argymhelledig yn gyson; ac mae angen cynnydd o 31 y cant mewn staff nyrsio er mwyn gyrraedd safonau BAPM. Er bod lle i ddangos optimistiaeth, mae angen gweithredu a buddsoddi ar frys er mwyn troi'r optimistiaeth hwn yn realaeth.

Argymhellion

- Mae'n rhaid darparu gofal ôl-eni yn unol â safonau BAPM 2001. Mae gan fabanod hawl i dderbyn yr un safon o ofal nyrsio a gynigir i blant ac oedolion mewn gofal dwys. Mae unrhyw sefyllfa sy'n cynnig llai na nyrsio un wrth un ar gyfer babanod mewn gofal dwys yn annerbyniol.
- Mae angen i Gynulliad Cymru a'r Byrddau Iechyd gefnogi, ariannu a gweithredu argymhellion adolygiad HCW a safonau'r CYPSSP yn llawn.
- Dylai Cynulliad Cymru, ar y cyd â'r Byrddau Iechyd, lunio cynlluniau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg dybryd o nyrsys ôl-eni cymwysedig.
- Dylid gweld gofal ôl-eni fel rhan integredig o wasanaethau mamolaeth. Dylid cynyddu'r nifer o fydwragedd, nyrsys ôl-eni a nyrsys ôl-eni cymunedol fel rhan o gynllun strategol tymor hir i wella gofal ar gyfer mamau a babanod.
- Dylid sicrhau mynediad 24 awr at wasanaethau trafniadol ôl-eni penodol ar gyfer holl unedau Cymru, gan gynnwys trosglwyddiadau dros y ffin pan fo hynny'n briodol.
- Dylid sicrhau bod taflenni Bliss a gwybodaeth bellach ar gyfer rheini ar gael ar gyfer teuluoedd ym mhob uned yng Nghymru.

Cyfeiriadau

1 Office for National Statistics, *Key Population and Vital Statistics* (2006)

2 Mae hwn yn fenter DH cymharol newydd sy'n anelu i gysylltu'r dyraniad ariannol ar gyfer gofal iechyd gyda'r gweithgaredd sy'n digwydd go iawn mewn ysbytai. Ceir wybodaeth bellach yma:
www.dh.gov.uk/en/Policyandguidance/Organisationpolicy/Financeandplanning/NHSFinancialReforms/DH_077259

3 Manylion llawn ar gael: *Comisiwn Iechyd Cymru: Adolygiad Yr Athro Mansel Aylward* CB (2008).

Bliss, 9 Holyrood Street, London SE1 2EL

† 020 7378 1122

f 020 7403 0673

e enquiries@bliss.org.uk

www.bliss.org.uk

Bliss
 for babies born too soon,
 too small, too sick